# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Ddeintyddol Arbenigol

The Parade

Dyddiad yr arolygiad: 26 Chwefror 2018

Dyddiad cyhoeddi: 6 Mehefin 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


| | |
|---|---|
| **Ffôn:** | **0300 062 8163** |
| **E-bost:** | **hiw@gov.wales** |
| **Ffacs:** | **0300 062 8387** |
| **Gwefan:** | **www.agic.org.uk** |



ISBN Digidol 978-1-78903-999-3



© Hawlfraint y Goron 2018

## Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 7

Ansawdd profiad y claf ........ 8

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 13

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 19

4. Beth nesaf? ........ 22

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 23

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ........ 24

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 25

Atodiad C – Cynllun gwella ........ 27

## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chymesur**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd yng Nghanolfan Ddeintyddol Arbenigol The Parade, 23 The Parade, y Rhath, Caerdydd, CF24 3AB, ar 26 Chwefror 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y staff yng Nghanolfan Ddeintyddol Arbenigol The Parade yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w cleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y claf a gwelsom fod y staff yn gyfeillgar ac yn broffesiynol tuag at gleifion yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda, ac roedd gan y practis y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith er mwyn cefnogi'r practis, y cleifion a'r staff.

Mae angen i'r practis sicrhau y cynhelir cofnodion cleifion yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mae'r practis wedi ymrwymo i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion
- Gwelwyd tystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth dda gan reolwr y practis, rheolwr yr ardal a'r cynghorydd clinigol
- Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol a phriodol ar gyfer dadheintio offer deintyddol
- Roedd offer deintyddol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u gwasanaethu'n rheolaidd

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd
- Trwsio'r ôl traul yn y mannau clinigol
- Sicrhau bod gan yr holl staff clinigol y dogfennau sy'n cadarnhau bod ganddynt yr imiwnedd angenrheidiol rhag hepatitis B
- Bod cofnodion yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, sef Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Practis deintyddol preifat yn unig yw Canolfan Ddeintyddol Arbenigol The Parade.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys pedwar deintydd, tri hylenydd, saith nyrs ddeintyddol, tri derbynnydd ac un rheolwr practis.

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod y practis wedi ymrwymo i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Nododd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod ei bolisi cwynion a'i rhestr brisiau wedi'u harddangos yn glir.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 15 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *Da iawn*
>
> *Staff a'r gwasanaeth heb eu tebyg. Deintyddion a nyrsys yn llawn gwybodaeth ac yn barod iawn eu cymwynas bob amser*

### Cadw'n iach

Mae gwybodaeth hybu iechyd yn cynorthwyo cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Yn y man aros, gwelsom ddetholiad o daflenni yn cynnig gwybodaeth am driniaethau a ddarperir gan y practis.  Yn ogystal, roedd ffolder gwybodaeth i gleifion a oedd yn cynnig detholiad o wybodaeth hybu iechyd. Dywedwyd wrthym fod taflenni ychwanegol yn rhoi gwybodaeth hybu iechyd wedi eu harchebu ac y byddent yn cael eu harddangos yn y man aros.

### Gofal ag urddas

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym fod staff bob tro yn gwrtais wrth iddynt ymweld â'r practis.

Dywedodd staff wrthym fod modd cynnal sgwrs breifat neu sgwrs dros y ffôn gyda chlaf yn y swyddfa wrth gefn y dderbynfa pe bai angen – gan gynnal cyfrinachedd cleifion.

Roedd gan bob ystafell driniaeth ddeintyddol ddrysau y gellid eu cau. Nodwyd yn ystod yr arolygiad nad oedd drws un ystafell driniaeth wedi'i gau yn llwyr tra oedd claf yn derbyn triniaeth. Rydym yn argymell bod staff yn sicrhau bod drysau pob ystafell driniaeth wedi'u cloi pan fo cleifion yn cael eu trin – gan roi preifatrwydd ac urddas iddynt.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai staff sicrhau bod drysau'r ystafelloedd triniaeth wedi'u cau'n ddiogel tra bo cleifion yn derbyn triniaeth.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth briodol ynghylch eu triniaeth, gan gynnwys y risgiau, yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael, costau'r gwasanaethau, a'r gwasanaethau ôl-ofal.

Ar adeg yr arolygiad, gwelsom restr brisiau yn nodi costau triniaeth ddeintyddol breifat wedi'i chynnwys yn y ffolder gwybodaeth i gleifion. Mae'n bosibl nad yw cleifion yn edrych ar y ffolder, nac yn ymwybodol o'i chynnwys. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod rhestrau prisiau'n cael eu harddangos yn glir, gan gynnwys rhestr o eitemau sylfaenol, a darparu gwybodaeth glir am brisiau. Ni ddylai cleifion orfod gofyn am y wybodaeth hon.

Roedd arwydd yn dangos manylion y deintyddion yn y practis a'i oriau agor y tu allan i'r practis. Nid oedd hyn yn gywir, a dywedwyd wrthym fod arwyddion newydd wedi cael eu harchebu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis arddangos yn glir rhestr brisiau sy'n nodi costau triniaeth ddeintyddol breifat.

Dylai'r practis arddangos enwau a chymwysterau’r holl ddeintyddion preswyl mewn man y gellir eu gweld yn glir.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom staff yn ymddwyn mewn modd moesgar a chwrtais wrth siarad â chleifion yn bersonol a thros y ffôn.

Mae gan y practis wefan, a oedd yn unol â chanllawiau hysbysebu moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol,[1] ond roedd ei bolisi cwynion yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y Comisiwn Ansawdd Gofal. Rydym yn argymell bod y polisi'n cael ei ddiwygio er mwyn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod cofrestru yng Nghymru, sef AGIC.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod ei wefan yn cael ei diweddaru i gynnwys manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod cofrestru yng Nghymru yn ei bolisi cwynion.

## Gofal amserol

Roedd manylion am sut gallai cleifion gael mynediad at ofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau yn cael eu harddangos y tu allan i'r practis. Roedd yr wybodaeth hefyd yn cael ei darparu ar neges peiriant ateb y practis.

Dywedodd staff wrthym fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon yn ystod ei oriau agor. Os oedd deintydd yn rhedeg yn hwyr, byddai'r staff yn hysbysu'r cleifion oedd yn aros pe bai oedi.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dangosodd archwiliad o gofnodion cleifion fod cleifion yn cael eu holi am eu hanes meddygol ar adeg eu hymweliad.

### Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cyfle cyfartal, polisi bwlio ac aflonyddu, a pholisi gofal teg a hygyrch ar waith, ac roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth.

[1] https://www.gdc-uk.org/api/files/Guidance%20on%20advertising%20(Sept%202013).pdf

Roedd mynediad i'r practis yn gyfyngedig i gleifion a oedd ag anawsterau symudedd. Roedd cleifion mewn cadeiriau olwyn a/neu ag anawsterau symudedd yn gallu cael mynediad i'r practis drwy'r fynedfa yn y cefn yn unig, a dim ond i ystafell driniaeth yr hylenydd, oedd wedi'i lleoli ar y llawr daear, yr oedd modd iddynt fynd iddi. Roedd grisiau i'r dderbynfa, y mannau aros a'r toiled i gleifion.

Dywedodd staff wrthym fod cleifion mewn cadeiriau olwyn neu rai ag anawsterau symudedd yn cael eu cyfeirio at y chwaer bractis ym Mae Caerdydd.

### Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd 11 o'r 15 o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i fynegi pryder neu gwyno am y gwasanaethau maent eu derbyn yn y practis deintyddol.

Roedd gan y practis bolisi cwynion ar waith a oedd yn ymdrin â thriniaethau deintyddol preifat. Roedd y polisi'n cyfeirio at y Comisiwn Ansawdd Gofal – yr awdurdod cofrestru yn Lloegr. Er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat,[2] mae angen i'r polisi gyfeirio at yr awdurdod cofrestru yng Nghymru, sef AGIC. Roedd y polisi cwynion wedi'i gynnwys yn y ffolder gwybodaeth i gleifion yn y man aros. Byddem yn argymell ei fod yn cael ei arddangos yn glir yn y man aros a/neu'r derbynfeydd.

Roedd gan y practis broses a system ar waith i gofnodi, monitro ac ymateb i unrhyw gwynion ffurfiol a dderbynnir ganddo. Dywedodd staff wrthym eu bod hefyd yn cofnodi'r pryderon ar lafar/anffurfiol a dderbyniwyd ar nodiadau'r cleifion. Argymhellir bod adborth cleifion yn cael ei gadw ar wahân i'w nodiadau meddygol a'i gofnodi mewn ffolder ar wahân, ynghyd ag ymateb a/neu gamau gweithredu'r practis lle y bo'n briodol. Byddai hyn yn galluogi'r practis i nodi unrhyw themâu ailadroddol. Mae'r practis hefyd yn adolygu sylwadau a gyflwynwyd drwy'r rhyngrwyd.

[2] https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod ei bolisi cwynion yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'i fod yn cyfeirio at yr awdurdod cofrestru yng Nghymru.

Dylai'r practis roi’r gorau i gofnodi adborth anffurfiol gan gleifion yng nghofnodion y cleifion a gwneud trefniadau eraill i gofnodi gwybodaeth o'r fath.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Gwnaethom nodi bod y cyfleusterau clinigol yn llawn offer – er bod rhai arwyddion o ôl traul yr oedd angen mynd i'r afael â nhw.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel ac roedd tystiolaeth o waith cynnal a chadw parhaus a rheolaidd.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion meddygol cleifion yn cael eu cwblhau yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion ar adeg pob ymweliad.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Er bod strwythur yr adeilad yn ôl pob golwg yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, roedd arwyddion o ôl traul i rai o'r ystafelloedd triniaeth a'r ystafell ddadheintio. Dywedwyd wrthym am gynlluniau i atgyweirio'r lloriau mewn dwy o'r ystafelloedd triniaeth, mynd i'r afael â'r lleithder, ac ail-baentio'r waliau yn yr ystafell ddadheintio cyn diwedd mis Mawrth 2018. Yn ogystal, roedd arwyddion o lwch ar arwynebau uwch mewn dwy o'r ystafelloedd triniaeth.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion a gwblhaodd holiadur ynghylch glendid y practis. Gwnaethom sylwi bod yr holl fannau cyhoeddus yn lân ac yn daclus.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy'n cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch yr adeilad a gwnaethom nodi eu bod wedi derbyn gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n iawn. Roedd y cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys yn weladwy.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol), gwastraff nad yw'n beryglus (cartref), a gwastraff amalgam yn ddiogel.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002, mae'n rhaid i gyflogwyr naill ai atal neu leihau datguddiad staff i sylweddau sy'n niweidiol i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis restr wirio 'Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd' a dalenni data diogelwch perthnasol ac roedd y rhain yn rhoi gwybodaeth am sylweddau sy'n 'beryglus i'w cyflenwi' a chyfarwyddiadau ar gyfer defnydd diogel mewn perthynas â sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis. Gwelsom fod y rhestr wedi cael ei hadolygu ddiwethaf yn 2017.

Roedd gan y practis bolisi adrodd ar ddamweiniau, a llyfr Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR), a oedd yn cael ei gwblhau pan oedd damwain.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis fynd i'r afael ag unrhyw arwyddion o ôl traul yn yr holl fannau clinigol.

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl ardaloedd clinigol yn cael eu glanhau'n drylwyr ac nad oes llwch ynddynt.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[3] Ar wahân am yr ardal o baent oedd yn pilio a drefnwyd i'w thrin cyn diwedd mis Mawrth 2018, roedd yr ystafell yn ôl pob golwg yn lân ac yn daclus, a gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith. Roedd gwaith glanhau a sterileiddio yn cael ei wneud yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru a chanllawiau'r gwneuthurwyr. Gwelsom fod y llyfrau cofnodi priodol ar gyfer gwirio'r cyfarpar sterileiddio yn cael eu cynnal a bod polisi rheoli heintiau ar waith.

Roedd gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol pan oeddent yn gweithio yn y mannau dadheintio.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag argyfyngau cleifion, ac roedd pob aelod o staff, ac eithrio dwy nyrs ddeintyddol, wedi derbyn hyfforddiant o fewn y flwyddyn ddiwethaf ar sut i fynd i'r afael ag argyfyngau meddygol a sut i berfformio adfywio cardio-pwlmonaidd. Dywedwyd wrthym fod un nyrs ddeintyddol wedi'i chofrestru ar gwrs, ac y byddai'r un arall yn cwblhau hyfforddiant perthnasol ar ôl iddi ddychwelyd o absenoldeb mamolaeth. Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf a benodwyd. Roedd polisi dadebru ar waith ac rydym yn argymell ei fod yn cael ei ddiwygio i gynnwys rolau a chyfrifoldebau'r staff.

Roedd gan y staff gyffuriau ac offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru'r DU.[4] Roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel a gellid mynd atynt yn hawdd.

---

[3] Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[4] Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithredu.

Gwnaethom nodi bod gan y practis system ar waith i wirio bod cyffuriau a chyfarpar brys o fewn eu dyddiad ac yn barod i'w defnyddio. Gwnaethom nodi hefyd fod padiau rhagnodi'n cael eu cadw'n ddiogel.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai pob aelod o staff gwblhau hyfforddiant perthnasol ar fynd i'r afael ag argyfyngau meddygol a dadebru cardio-pwlmonaidd.

Dylai'r practis ddiwygio ei bolisi dadebru i gynnwys rolau a chyfrifoldebau'r staff.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gan y practis bolisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed ac roedd y rhain yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol. Roedd pob aelod o staff, ac eithrio'r nyrs ddeintyddol ar absenoldeb mamolaeth, wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ac amddiffyn plant.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn yn y practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai pob aelod o staff gwblhau hyfforddiant perthnasol mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ac amddiffyn plant.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd y cyfarpar radiolegol yn gweithio'n dda ac roedd y mannau a reolir wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennau'n dangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal a'i chadw ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol.

Roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[5] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.[6]

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn ymgymryd ag archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau, cadw cofnodion clinigol, amseroedd aros a llwyddiant o ran mewnblaniadau.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Nid oes unrhyw drefniadau ar waith ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaid, a byddem yn argymell bod cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd yn cael eu trefnu rhwng y deintyddion ar gyfer y diben hwn.

Mae'n bosibl y byddai'r practis yn dymuno ystyried gwneud cais am offeryn datblygu ymarfer Deoniaeth Cymru, sef y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.[7] Offeryn datblygu ymarfer tîm deintyddol yw'r Offeryn Matrics Aeddfedrwydd i alluogi'r tîm i ganolbwyntio ar sut maent yn gweithio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r deintyddion drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddibenion adolygiad gan gymheiriaid.

Dylai'r practis ystyried gwneud cais am offeryn datblygu ymarfer Deoniaeth Cymru, sef y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.

[5] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

[6] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

[7] https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at y sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd cofnodion papur yn cael eu cadw'n ddiogel yn swyddfa rheolwr y practis. Roedd polisi diogelu data ar waith.

## Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion. Mewn rhai achosion, canfuom nad oedd canfyddiadau clinigol bob amser yn cael eu cofnodi. Yn ogystal, roedd achosion lle nad oedd radiograffau yn cael eu cyfiawnhau na'u graddio. Byddem yn argymell bod y practis yn cynnal archwiliad cynhwysfawr o radiograffau.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am yr archwiliad, y cyngor a'r driniaeth a ddarparwyd, a gwybodaeth berthnasol am belydrau-X.

Dylai'r practis gynnal archwiliad o radiograffau.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'r safonau proffesiynol perthnasol.*

Yn ystod yr arolygiad, canfuom dystiolaeth o arweinyddiaeth a llinellau atebolrwydd da. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd.

Roedd gan y practis amrediad cynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith i sicrhau bod y practis a'r staff yn cael cefnogaeth a'u bod wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion.

Roedd angen i'r practis gyflwyno system arfarnu ffurfiol er budd ei staff.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Canolfan Ddeintyddol Arbenigol The Parade yn rhan o grŵp o bractisau deintyddol Bupa yng Nghymru a Lloegr. Rheolwr y practis sy'n cyflawni'r gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd. Canfuom fod y practis yn cael ei arwain yn dda a bod yr holl staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd y practis wedi'i drefnu'n dda, a gwelwyd gwaith cadw cofnodion da ym mhob maes. Gwelsom fod amrediad eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwnaethom nodi bod gan yr holl bolisïau ddyddiadau adolygu a bod modd hefyd i staff ddangos eu bod wedi darllen y polisïau.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn meddu ar yswiriant indemniad priodol. Gwelsom dystysgrifau cofrestru pob deintydd wedi'u harddangos yn glir yn unol â gofynion Rheoliadau

Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Nid oedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis wedi'i harddangos. Rydym yn argymell ei bod yn cael ei harddangos yn glir ar gyfer pob un sy'n ymweld â'r practis.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod gwiriadau cyn-gyflogi'n cael eu cynnal ar unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys geirdaon, yr hawl i weithio yn y DU, holiaduron meddygol a chymwysterau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis arddangos ei dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Dywedodd staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y practis, a gwelsom gydberthynas gref rhwng holl staff y practis. Gwelsom fod gan bob aelod o staff gontractau cyflogaeth, a gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau'r staff fod gan y practis rhaglen ymsefydlu ar waith. Dywedwyd wrthym nad oedd arfarniadau staff wedi'u cynnal ers cryn amser. Bydd arfarniadau yn caniatáu i nifer o broblemau gael eu codi mewn trafodaethau rheolaidd a gynlluniwyd. Dylai'r rhain gael eu cofnodi a'u llofnodi fel cofnod a gytunwyd o'r arfarniad – gan roi cyfle ar gyfer cyfnodau adolygu ac asesiadau o gynnydd.Dywedodd y rheolwr dros dro wrthym y byddai'n gweithredu rhaglen o arfarniadau staff rheolaidd ar gyfer staff clinigol a'r rhai hynny nad ydynt yn glinigol.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac roedd hyn yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Dywedwyd wrthym y byddai trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer un nyrs ddeintyddol (a oedd ar absenoldeb mamolaeth) i dderbyn hyfforddiant priodol ar ôl iddi ddychwelyd i'r gwaith.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd ar wahân ar gyfer y deintyddion, nyrsys deintyddol a staff nad ydynt yn rhai clinigol – a chaiff cofnodion eu creu ar eu hôl a'u hanfon at bob grŵp. Rydym yn argymell bod rhaglen o gyfarfodydd staff yn cael ei chyflwyno, yn cynnwys staff clinigol a'r rhai hynny nad ydynt yn glinigol. Mae'r practis hefyd yn darparu hyfforddiant mewnol, a chyfle i'r staff ddysgu oddi wrth ei gilydd – er enghraifft, yr hyn i'w wneud os yw claf yn llewygu neu'n dioddef o anaffylacsis.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar staff clinigol a'r rhai hynny nad ydynt yn glinigol. Roedd tystysgrifau dau ddeintydd ac un hylenydd wedi dod i ben, a dywedwyd wrthym fod ceisiadau wedi cael eu cyflwyno.

Mae angen imiwneiddio staff clinigol rhag hepatitis B[8] er mwyn diogelu'r cleifion a'u hunain rhag heintiau. Nid oedd y practis yn gallu darparu tystiolaeth o imiwnedd ar gyfer un deintydd, un hylenydd a dwy nyrs ddeintyddol. Rhaid i'r practis gael cadarnhad fod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag hepatitis B.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod gan yr holl staff fynediad at hyfforddiant perthnasol a'u bod yn ei gwblhau i'w galluogi i fodloni eu gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus.

Dylai'r practis weithredu rhaglen o gyfarfodydd staff yn cynnwys staff clinigol a'r rhai hynny nad ydynt yn glinigol.

Rhaid i'r practis gael cadarnhad fod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag hepatitis B.

[8] Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 086

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae’n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rydym yn rhoi rhybudd cyn cynnal arolygiad o bractis deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd unrhyw ddeintydd yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
| --- | --- | --- | --- |
| Ni welwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Canolfan Ddeintyddol Arbenigol The Parade

## Dyddiad yr arolygiad: 26 Chwefror 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Canolfan Ddeintyddol Arbenigol The Parade

### Dyddiad yr arolygiad: 26 Chwefror 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dylai staff sicrhau bod drysau'r ystafelloedd triniaeth wedi'u cau'n ddiogel tra bo cleifion yn derbyn triniaeth. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (1) (d) | Cafodd y cam gweithredu hwn ei ddechrau a'i ddatrys ar unwaith gan y tîm ar ddiwrnod yr arolygiad. Cynhaliwyd cyfarfod tîm y diwrnod canlynol. Mae pob aelod o staff yn ymwybodol bod angen cloi pob drws tra bydd cleifion yn derbyn triniaeth – a fydd yn parhau wrth symud ymlaen. | Tracy Blackmore | 26/02/2018 |
| Dylai'r practis arddangos yn glir rhestr brisiau sy'n nodi costau triniaeth ddeintyddol breifat. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) | Mae rhestr brisiau bellach yn weladwy mewn ffrâm luniau ar wal yr ystafell aros. | Tracy Blackmore | 27/02/2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 2008<br>Rheoliad 14 | | | |
| Dylai'r practis arddangos enwau a chymwysterau'r holl ddeintyddion preswyl mewn man y gellir eu gweld yn glir. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 | Cafodd hyn ei gywiro ar ddiwrnod yr arolygiad. | Tracy Blackmore | 26/02/2018 |
| Dylai'r practis sicrhau bod ei wefan yn cael ei diweddaru i gynnwys manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod cofrestru yng Nghymru yn ei bolisi cwynion. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 15 | Mae ein prif swyddfa bellach wedi cwblhau hyn. Mae'r ddolen wedi'i rhestru ar y dudalen ansawdd gofal sy'n cyfeirio at AGIC.<br>https://www.oasisdentalcare.co.uk/platinum/parade-dental/about-us/quality-of-care/ | Tracy Blackmore | 16/04/2018 |
| Dylai'r practis sicrhau bod ei bolisi cwynion yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'i fod yn cyfeirio at yr awdurdod cofrestru yng Nghymru. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 15 | Mae ein polisi cwynion bellach yn dangos hyn, ac mae wedi'i arddangos ym man aros y practis. | Tracy Blackmore | 26/02/2018 |
| Dylai'r practis roi'r gorau i gofnodi adborth | Rheoliadau | Mae hyn wedi'i roi ar waith ar unwaith, | Tracy Blackmore | 27/02/2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| anffurfiol cleifion yng nghofnodion y cleifion a gwneud trefniadau eraill i gofnodi gwybodaeth o'r fath. | Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 16 | ac mae pob aelod o'r tîm yn ymwybodol ohono. | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Dylai'r practis fynd i'r afael ag unrhyw arwyddion o ôl traul yn yr holl fannau clinigol. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (1) (d) | Aethpwyd i'r afael â hyn, ac mae llawr newydd wedi'i osod. | Tracy Blackmore | 20/04/2018 |
| Dylai'r practis sicrhau bod yr holl ardaloedd clinigol yn cael eu glanhau'n drylwyr ac nad oes llwch ynddynt. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (1) (d) | Roedd hon yn ystafell driniaeth nad oedd yn cael ei defnyddio ac a oedd â chypyrddau ac arwynebau gwag, ac nid oedd disgwyl i'w rhoi ar yr rota lanhau am wythnos arall.<br>Ar hyn o bryd, nid oes llwch yn unrhyw un o'r ardaloedd clinigol o dan y polisi iechyd a diogelwch, a'r polisi gweithio ar uchder. | Tracy Blackmore | 27/02/2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylai pob aelod o staff gwblhau hyfforddiant perthnasol ar fynd i'r afael ag argyfyngau meddygol a dadebru cardio-pwlmonaidd. | Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – Datblygiad Proffesiynol Parhaus | Mae pob aelod o staff bellach wedi cwblhau'r hyfforddiant mewn argyfyngau meddygol a dadebru cardio-pwlmonaidd. Mae ein nyrs a oedd ar absenoldeb mamolaeth bellach wedi dychwelyd i'r gwaith, ac mae wedi derbyn hyfforddiant. | Tracy Blackmore | 16/04/2018 |
| Dylai'r practis ddiwygio ei bolisi dadebru i gynnwys rolau a chyfrifoldebau'r staff. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | Mae hyn bellach wedi'i gynnwys a'i drafod mewn cyfarfod staff. | Tracy Blackmore | 27/02/2018 |
| Dylai pob aelod o staff gwblhau hyfforddiant perthnasol mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed ac amddiffyn plant. | Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – Datblygiad Proffesiynol Parhaus | Mae ein nyrs a oedd ar absenoldeb mamolaeth bellach wedi dychwelyd a chwblhau'r hyfforddiant. | Tracy Blackmore | 02/04/2018 |
| Dylai'r deintyddion drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddibenion adolygiad gan gymheiriaid. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 | Trafodwyd a chwblhawyd. | Tracy Blackmore a phob deintydd | 06/4/2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | (2) | | | |
| Dylai'r practis ystyried gwneud cais am offeryn datblygu ymarfer Deoniaeth Cymru, sef y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (2)<br>Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol: Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol<br>Safon 6.6 | Mae ein polisïau arfer cyfredol eisoes yn ymdrin â'r pynciau sydd yn offeryn datblygu ymarfer Deoniaeth Cymru, sef y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. | Tracy Blackmore | 27/02/2018 |
| Er mwyn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am yr archwiliad, y cyngor a'r driniaeth a ddarparwyd, a gwybodaeth berthnasol am belydrau-X. | Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol: Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol<br>Safon 4.1 | Cafodd y cam gweithredu hwn ei drafod mewn cyfarfod y diwrnod canlynol a'i gyflwyno'n ffurfiol gydag effaith ar unwaith. | Adrian Binney, Michael Page | 27/02/2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylai'r practis gynnal archwiliad o radiograffau. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (2) | Cafodd hyn ei gwblhau y diwrnod ar ôl yr arolygiad, yn dilyn yr archwiliad presennol o radiograffau a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2017. | Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol | 27/02/2018 |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Dylai'r practis arddangos ei dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<br>Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 | Mae'r dystysgrif bellach yn weladwy yn nerbynfa'r practis. | Tracy Blackmore | 27/02/2018 |
| Dylai'r practis sicrhau bod gan yr holl staff fynediad at hyfforddiant perthnasol a'u bod yn ei gwblhau i'w galluogi i fodloni eu gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus. | Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – Datblygiad Proffesiynol Parhaus | Mae mynediad y staff at yr holl hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant perthnasol yn parhau er mwyn bodloni eu gofynion o ran hyfforddiant ar ddadebru cardio-pwlmonaidd. | Tracy Blackmore | 02/4/2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylai'r practis weithredu rhaglen o gyfarfodydd staff yn cynnwys staff clinigol a'r rhai hynny nad ydynt yn glinigol. | Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol: Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol<br>Safon 6.6.2 | Mae hyn wedi dechrau. | Tracy Blackmore | 27/02/2018 |
| Rhaid i'r practis gael cadarnhad fod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag hepatitis B. | Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol: Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol<br>Safon 1.5.2 | Mae ein nyrs a oedd ar absenoldeb mamolaeth bellach wedi dychwelyd, ac mae copi o'i thystysgrif imiwnedd rhag hepatitis B i'w gweld yn awr. | Tracy Blackmore | 02/04/2018 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras): Tracy Blackmore

**Swydd: Rheolwr y practis**

**Dyddiad: 19/04/2018**